# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Gynhadledd 4B – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 12 Mehefin 2017** |
| Amser: | **12.10 – 14.30** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: AC(5)2017(6)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Suzy Davies AC<br>Caroline Jones AC<br>Adam Price AC<br>Joyce Watson AC |
| Swyddogion yn bresennol: | Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad<br>Dave Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau<br>Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid<br>Non Gwilym, Pennaeth Cyfathrebu<br>Kevin Tumelty, Pennaeth Diogelwch<br>Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn<br>Sulafa Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd |
| Eraill yn bresennol: | |

## 1 Cyflwyniad

1.1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

1.2 Datgan buddiannau

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

1.3 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 15 Mai.

## 2 Ystyriaethau o ran y gyllideb (Saesneg yn unig)

Trafododd y Comisiynwyr baratoadau'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19.

Trafododd y Comisiynwyr y cyd-destun presennol, sydd wedi gweld lefel y newid yn mynd yn fwy na'r disgwyl, gyda chynnydd yn y pwysau a'r galw ar Gomisiwn y Cynulliad. Cydnabuont fod newidiadau pellach ar y gorwel a bod angen dal y ddysgl yn wastad rhwng cefnogi'r rhain a pharhau i ddarparu gwasanaethau rhagorol i'r Aelodau ac i bobl Cymru.

Cadarnhaodd y Comisiynwyr eu cefnogaeth am gyfeiriad y gwaith a gwnaed cais am wybodaeth ychwanegol i gefnogi eu penderfyniadau yn y dyfodol.

Cytunodd y Comisiynwyr y caiff y gyllideb ddrafft derfynol ei gosod erbyn diwedd mis Medi yn dilyn ystyriaeth bellach.

## 3 Anghenion ar gyfer y dyfodol

Cafodd y Comisiynwyr ddiweddariad ar waith i ddiwallu anghenion o ran yr adeilad yn y dyfodol a nodwyd y sgyrsiau archwiliadol sy'n cael eu cynnal â thirfeddianwyr. Cytunwyd ar gael rhagor o wybodaeth cyn toriad yr haf.

## 4 Rhaglen ddiwygio'r Cynulliad

Yn y cyfarfod blaenorol, wedi ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus ar enw y Cynulliad, cytunodd y Comisiynwyr y byddent yn dychwelyd at fater rhaglen ddiwygio'r Cynulliad, a'r cynigion deddfwriaethol y gallai'r Comisiwn ddymuno eu dilyn yn ystod y tymor Cynulliad hwn o ganlyniad i bwerau newydd a ddatganolir o dan Ddeddf Gymru 2017.

Cytunodd y Comisiynwyr y byddent yn trafod cwmpas llawn y rhaglen ddiwygio bosibl a'r cynigion deddfwriaethol y maent yn bwriadu eu cyflwyno ar ôl i adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Trefniadau Etholiadol y Cynulliad ddod i law yn hydref 2017. Gallai'r trafodaethau hyn gwmpasu pecyn ehangach o ran diwygio trefniadau gweithredol megis y rheolau anghymwyso, trefniadau etholiadol a'r system bwyllgora.

Cytunodd y Comisiynwyr i gynnig deddfwriaeth i newid enw'r Cynulliad yn Senedd Cymru/Welsh Parliament cyn diwedd y Cynulliad hwn. Bydd yr Aelodau yn cael eu galw'n Aelodau o Senedd Cymru/Welsh Parliament Members. Wrth arwain y gwaith hwn ar ran y sefydliad, bydd y Comisiwn yn ceisio sicrhau'r consensws gwleidyddol mwyaf ar draws y pleidiau i gyd.

Yn y cyfamser, bydd y Cynulliad yn parhau i gael ei alw yn swyddogol wrth ei enw statudol presennol, sef Cynulliad Cenedlaethol Cymru, er mwyn osgoi dryswch ac i leihau costau ac anghyfleustra.

Bydd y Comisiwn yn cynllunio'r newid er mwyn sicrhau bod y gost cyn lleied ag y bo modd, gan newid enw'r Cynulliad yn unig a pheidio â chynnal unrhyw ailfrandio cyffredinol na newid y logo.

Cytunodd y Comisiynwyr i gyhoeddi crynodeb o ganfyddiadau'r ymgynghoriad, ynghyd â datganiad ysgrifenedig ffurfiol i'r Cynulliad gan y Llywydd yn egluro'r penderfyniad a wnaed a sut y mae'r Comisiwn yn bwriadu symud ymlaen.

## 5 Adroddiad y Tasglu Digidol

Cafodd y Comisiynwyr ddiweddariad drwy grynodeb byr o rôl a gwaith y Tasglu. Trafodwyd rhai o'r argymhellion a ragwelir yn yr adroddiad sydd i'w gyhoeddi yn ddiweddarach y mis hwn, a chytunwyd i ystyried eu hymateb yn y cyfarfod ar 17 Gorffennaf.

## 6 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddiogelwch

Ar gais y Comisiynwyr, darparwyd diweddariad ar ddiogelwch ffisegol a seiber. Nododd y Comisiynwyr fod ymwybyddiaeth o risgiau a phrotocolau diogelwch yn agwedd bwysig ar fod yn ddiogel ac y dylai'r holl Aelodau a'u staff gael eu hannog i fanteisio ar y hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch sydd ar gael.

## 7 Adroddiad a chyfrifon blynyddol

Cafodd y Comisiynwyr fersiwn ddrafft o adroddiad blynyddol a chyfrifon Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2016 hyd at 31 Mawrth 2017.

Cymeradwyodd y Comisiynwyr yr adroddiad, yn amodol ar fân newidiadau i ystyried sylwadau gan Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad a chan Gomisiynwyr; ynghyd â phroses prawfddarllen derfynol, fformatio a brandio.

Caiff y fersiwn derfynol ei gosod yn Gymraeg ac yn Saesneg cyn diwedd tymor yr haf, a bydd ar gael ar-lein a thrwy nifer cyfyngedig o gopïau argraffedig.

## 8 Adroddiad ar brif ddangosyddion perfformiad corfforaethol (Ebrill 16-Mawrth 17)

Trafododd y Comisiynwyr Adroddiad cyntaf y Pumed Cynulliad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol. Roedd yn nodi perfformiad Comisiwn y Cynulliad yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2017, yn ôl y nodau strategol a bennwyd.

Nododd y Comisiynwyr yr adroddiad a chytunwyd y dylid ei gyhoeddi.

## 9 Adroddiad blynyddol y Pwyllgor Taliadau

Cynhaliwyd ymarfer recriwtio agored i lenwi swydd wag ar y Bwrdd Taliadau. Trafododd y Comisiwn yr argymhelliad a chytunodd ar benodi'r ymgeisydd a ffafrir gan y Panel Dethol.

## 10 Unrhyw fater arall

Cynhaliwyd ymarfer recriwtio agored i lenwi swydd wag ar y Bwrdd Taliadau. Trafododd y Comisiwn yr argymhelliad a chytunodd ar benodi'r ymgeisydd a ffafrir gan y Panel Dethol.